OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 2303

# Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002

## RHAN II

## COFNODION AC ADNABOD MOCH

*COFNODION MOCH*

**Cofnodion a hysbysiadau daliadau**

**3.**—(1) Rhaid i berchennog unrhyw fochyn ar ddaliad neu berson sydd â gofal drosto i hysbysu'n ysgrifenedig y Swyddog Milfeddygol Rhanbarthol ar gyfer yr ardal lle mae'r daliad o'r canlynol—

(a) cyfeiriad y daliad;

(b) enw a chyfeiriad perchennog neu feddiannydd y daliad;

(c) rhif adnabod y daliad (os yw'n hysbys i'r person sy'n rhoi'r hysbysiad); ac

(ch) rhywogaeth unrhyw anifail sy'n cael ei gadw ar y daliad.

(2) Yn achos daliad a sefydlwyd ar ôl i'r Gorchymyn hwn ddod i rym, rhaid cydymffurfio â'r ddyletswydd a osodir gan baragraff (1) o fewn un mis o sefydlu'r daliad.

(3) O fewn un mis o wneud unrhyw newid i'r manylion a hysbyswyd neu unrhyw ychwanegiad at yr wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (1), rhaid i berchennog neu geidwad unrhyw fochyn ar ddaliad hysbysu'r Swyddog Milfeddygol Rhanbarthol yn ysgrifenedig o'r newid neu'r ychwanegiad.

(4) Rhaid i berchennog neu geidwad mochyn ar ddaliad roi'r manylion a hysbyswyd i arolygydd os gofynnir iddo wneud hynny.

(5) Yn yr erthygl hon ystyr "Swyddog Milfeddygol Rhanbarthol" yw'r arolygydd milfeddygol a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i'r swydd honno ar gyfer yr ardal lle mae'r daliad.

**Cofnodion moch**

**4.**—(1) Rhaid i berchennog neu geidwad mochyn ar ddaliad wneud cofnod a'i gadw—

(a) ar y ffurf a nodir yn Atodlen 1 mewn perthynas â phob symudiad moch i'r daliad neu ohono; a

(b) o uchafswm y moch sy'n bresennol fel arfer ar y daliad (a hynny'n cael ei ddiwygio o leiaf bob blwyddyn).

(2) Yn achos unrhyw berson sy'n gwerthu unrhyw fochyn (p'un ai drwy arwerthiant neu drwy gytundeb preifat) ar safle sy'n cael ei ddefnyddio fel marchnad ar gyfer moch drwy arwerthiant, rhaid iddo wneud cofnod ysgrifenedig (yn ychwanegol at y cofnodion sy'n ofynnol o dan baragraff (1) uchod) o enw a chyfeiriad gwerthwr a phrynwr pob lot foch, a rhif y gorlan neu'r corlannau lle'r oedd pob lot yn cael ei chadw, a chadw'r cofnod hwnnw yn ei feddiant.

(3) Rhaid i bob cofnod o dan yr erthygl hon—

(a) cael ei wneud o fewn 36 awr ar ôl i'r symudiad neu'r gwerthiant gael ei gofnodi; a

(b) cael ei gadw yn ei feddiant gan berchennog neu geidwad y mochyn neu berchennog y daliad neu'r person sydd â'r gofal drosto am gyfnod o dair blynedd o ddiwedd y flwyddyn y gwnaed y cofnod diwethaf ynddi.

(4) Os gofynnir iddo wneud hynny gan arolygydd ar unrhyw adeg resymol, rhaid i unrhyw berson sydd â gofal am y tro dros unrhyw gofnod y mae'n ofynnol ei gadw o dan yr erthygl hon ddangos y cofnod hwnnw a chaniatáu i gopi gael ei wneud ohoNo.

(5) Os yw cofnod y mae'n ofynnol ei gwneud o dan yr erthygl hon yn cael ei gwneud ar ffurf electronig neu fagnetig, mae cyfeiriadau ym mharagraff (4)—

(a) at ddangos y cofnod yn gyfeiriadau at ei ddangos ar ffurf ysgrifenedig, os dyna beth y mae ar yr arolygydd yn ei fynnu; a

(b) at gymryd darnau neu gopïau o'r cofnod yn gyfeiriadau at eu cymryd ar ffurf ysgrifenedig.